

Arwyr ac Arwresau Cymru Branwen ferch Llŷr

DILYN ÔL TROED



 Cadw



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyma un o hen chwedlau Cymru, wedi'i hadrodd o genhedlaeth i genhedlaeth. Cafodd ei hysgrifennu fel rhan o gasgliad o straeon o'r enw Pedair Cainc y Mabinogi. Mae'r straeon wedi'u lleoli yng Nghymru, mewn cyfnod canoloesol chwedlonol. Roedd yn oes o angenfilod a hud a lledrith, pan oedd gwrthdaro mawr rhwng Prydain ac Iwerddon. Ceir llawer o fersiynau gwahanol o'r stori yma – dyma un ohonynt.

Branwen ferch Llŷr

Priodas yn dinistrio yn lle uno



Roedd Branwen ferch Llŷr yn ferch ifanc brydferth

Pan briododd Branwen ferch Llŷr, chwaer brenin Ynys Prydain, â Matholwch, brenin Iwerddon, y nod oedd sicrhau heddwch rhwng y ddwy wlad a oedd yn rhyfela yn erbyn ei gilydd. Ond doedd hanner brawd dieflig Branwen ddim yn hapus ynghylch yr uno. Aeth o ati i ddifetha'r briodas, ond yn y diwedd, y cyfan a wnaeth oedd creu dinistr a marwolaeth i'w deulu ei hun.

Roedd gan Branwen brydferth ddau frawd. Un oedd Bendigeidfran, brenin Ynys Prydain, cawr gyda phwerau hud. Y llall oedd Manawydan, cynghorydd doeth y brenin. Ond roedd ganddi hefyd hanner brawd, Efnisien greulon.

Mae'r stori'n dechrau wrth i Bendigeidfran a Manawydan eistedd un diwrnod ar graig Harlech, gogledd Cymru, yn edrych allan tua'r môr. Fe welsant fflyd ysblennydd o longau'n nesáu. Llongau eu gelyn, Matholwch, brenin Iwerddon, oedd y rhain. Ond roedd tarian wedi cael ei chodi'n uchel i'r awyr, fel arwydd o heddwch gan y Gwyddelod.

Hau hadau heddwch

Roedd Matholwch wedi dod i ofyn i Bendigeidfran am law Branwen mewn glân briodas. Roedd holl deulu Branwen yn cytuno ac roedd y briodas yn cael ei hystyried fel cyfrwng i ddwyn heddwch rhwng y ddwy wlad. Yr unig berson nad oedd wedi cymeradwyo oedd Efnisien, am ei fod oddi cartref.

Cynhaliwyd y briodas frenhinol yn Aberffraw ar Ynys Môn, a thra oedd y dathliadau mawr yn mynd rhagddynt, dychwelodd Efnisien. Pan ddarganfyddodd beth oedd wedi digwydd, roedd yn gandryll nad oedd neb wedi gofyn am ei gyngor ef.



Roedd llongau Matholwch yn nesáu at Harlech



Mae cerflun o Bendigeidfran y tu allan i Gastell Harlech

Gweithred greulon yn codi gwrychyn y Gwyddelod

Yn ei wylltineb, penderfynodd Efnisien ddial ar geffylau Matholwch, a oedd wedi'u clymu y tu allan, gan eu clwyfo i gyd gyda'i gleddyf.

Pan welodd Matholwch yr anfadwaith, roedd wedi dychryn ac yn ddig iawn. I wneud iawn am y niwed, rhoddodd Bendigeidfran geffylau newydd i Matholwch, yn ogystal â phair hud. Roedd y pair hwn yn dod â'r meirw'n ôl yn fyw yn ôl y sôn. Roedd Matholwch yn hapus iawn gyda'r rhodd a hwylodd yn ôl i Iwerddon gyda'i briodferch newydd dlos.

Chwarae'n troi'n chwerw

Cafodd y pâr priod groeso cynnes yn Iwerddon. Roedd y Gwyddelod yn edmygu Branwen, y frenhines newydd, yn fawr. O fewn blwyddyn, rhoddodd Branwen enedigaeth i fab, sef Gwern fab Matholwch. Ond byrhoedlog fu eu hapusrwydd.

Clywodd pobl Iwerddon am yr ymosodiad ar geffylau



Gastell Harlech: wedi'i adeiladu ar safle cartref chwedlonol Bendigeidfran



Matholwch yn ôl yng Nghymru. Roeddent yn teimlo bod eu brenin wedi bod yn rhy barod i faddau ac yn mynnu bod Matholwch yn cosbi Branwen am drosedd ei hanner brawd.

Anfonwyd gwraig y brenin i fyw a gweithio yn y gegyn ac roedd yn cael ei churo'n ddyddiol gan y rhai oedd yn gweithio yno.

Anfon neges ar adain gobaith i Brydain

Am dair blynedd, roedd Branwen yn gaeth, ac nid oedd gan ei theulu syniad am ei chosb. Ond daeth ei chyfle am ryddid pan ddaeth yn ffrindiau gyda drudwen. Hyfforddodd yr aderyn i adnabod ei brawd ac yna clymodd llythyr wrth ei adain a'i anfon i Gymru. Aeth y ddrudwen draw dros y môr gan gludo'r neges i'w brawd yng Nghaernarfon.

Pan ddarllenodd Bendigeidfran y llythyr, addawodd y byddai'n dial. Casglodd fyddin ynghyd gyda'i frodyr. Hwylodd ei fflyd dros Fôr Iwerddon a cherddodd Bendigeidfran ei hun drwy'r môr.

Torri calon Branwen

Cyn dechrau brwydro, cafodd Bendigeidfran neges gan Matholwch. Roedd brenin Iwerddon yn addo y byddai'n rhoi Iwerddon i Gwern, mab hoff Branwen – a oedd hefyd yn nai i Bendigeidfran. Byddai'r cynnig o heddwch wedi gweithio – oni bai am Efnisien.

Roedd Efnisien yn amau mai tric oedd y cyfan. Pan ddaeth Gwern i gyfarch ei ewythrod, taflodd Efnisien y bachgen i'r tân. Yn ei braw, ceisiodd Branwen neidio i'r tân ar ôl ei mab, ond cafodd ei dal yn ôl.

A bu brwydr fawr. Ond roedd gan y Gwyddelod fantais – defnyddiwyd y pair hud ganddynt i adfywio'r meirw. Gwelodd Efnisien beth oedd yn digwydd ac, yn llawn edifeirwch, neidiodd i mewn i'r pair a'i ddinistrio, ond trwy wneud hynny collodd ei fywyd ei hun.

Law yn llaw â buddugoliaeth, trasiedi

Trodd llanw'r frwydr a lladdwyd pob un o filwyr Iwerddon gan ddynion Bendigeidfran. Cafodd Bendigeidfran ei hun ei daro yn ei droed gan waywffon wenwynig. Gan wybod ei fod yn mynd i farw, gorchynnodd i'r saith milwr a oedd ganddo'n weddill dorri ei ben i ffwrdd a'i gario i'r Bryn Gwyn yn Nhŵr Llundain. Y cyfarwyddyd a roddodd iddynt oedd ei gladdu'n wynebu tua Ffrainc, fel bod ei hud yn gwarchod Prydain rhag ymosodiad.

Roedd Branwen wedi'i brawychu gan farwolaeth ei mab a'r trasiedïau a achoswyd gan ei phriodas a bu farw o dorcalon. Cafodd ei chladdu ym Medd Branwen yng nghalon Ynys Môn.

Pen yn siarad

Ond nid dyma ddiwedd y stori. Cychwynnodd Manawydan a'i ddynion ar y siwrnai i Lundain gyda phen Bendigeidfran. Ond dechreuodd y pen siarad gyda nhw. Dyma aros i wrando arno, yn Harlech i ddechrau, ac yna ar Ynys Gwales, ynys oddi ar arfordir Cymru. Wrth i Bendigeidfran siarad, anghofiodd y dynion am yr holl erchyllterau roeddent wedi'u gweld. Safodd amser yn llonydd. Wrth iddynt ailgychwyn ar eu siwrnai, roedd bron i 100 mlynedd wedi mynd heibio.

Anfonodd drudwen neges ar draws y môr



Yn aml mae gan beiriau nodweddion hudol mewn mythau a chwedlau



Perfformio'r Mabinogi yng Nghastell Harlech

Dilyn ôl troed

Rydych chi wedi darllen stori drasig Branwen, nawr ewch am dro i'w byd hudolus a chwedlonol hi.



Castell Harlech

Castell Harlech

Saif Castell Harlech mewn lleoliad trawiadol ar glogwyn creigiog yn edrych i lawr dros y môr a draw am fynyddoedd Eryri. Cafodd ei adeiladu ar gyfer Brenin Edward I o Loegr yn y 1280au.

- Eisteddwch ar waliau'r castell yn edrych allan tua'r môr – dychmygwch mai chi yw Bendigeidfran, brenin Ynys Prydain, yn gweld y fflyd o Iwerddon yn nesáu.
- Edrychwch o'ch cwmpas draw tua'r mynyddoedd a'r rhostir gwyllt – lleoliad perffaith ar gyfer straeon chwedlonol. Oedd posib i ben Bendigeidfran y cawr siarad gyda'i ddynion mewn gwirionedd, a gwneud iddynt anghofio am eu gofidiau?
- Chwiliwch am y murfylchau, y tyrau bychain a'r porthdai – a lluniwch eich straeon eich hun am y digwyddiadau a allai fod wedi digwydd yno.



Castell Caernarfon

Castell Caernarfon

Castell godidog Caernarfon yw'r enwocaf o gestyll Cymru o bosib. Dyma gastell enfawr ac aruchel a chafodd ei adeiladu ar gyfer Brenin Edward I o Loegr yn y 1280au. Roedd nid yn unig yn gaer filwrol, ond hefyd yn ganolfan lywodraethu a phalas brenhinol.

- Dychmygwch ddrudwen Branwen yn croesi'r môr ac yn cyrraedd Caernarfon. Dychmygwch ddieter Bendigeidfran wrth ddarllen y llythyr gan Branwen.
- Archwiliwch y waliau a'r tyrau. Dychmygwch pa mor anodd fyddai meddiannu'r cadarnle yma.
- Edrychwch draw dros Afon Menai, sef culfor sy'n gwahanu tir mawr Cymru oddi wrth Ynys Môn.
- Darganfyddwch yr arddangosfeydd rhyfeddol sy'n adrodd stori Caernarfon.

Ynys Môn

Ynys fechan yw Ynys Môn gydag arfordir gerwin, traethau bychain creigiog a rhosydd agored. Ym mhob cornel o'r ynys, gwelir olion hanesyddol rhyfeddol. Mae tirluniau gwyllt a rhamantus yr ynys wedi ysbrydoli llawer o chwedlau a straeon Cymreig.

- Yn ôl y sôn, claddwyd Branwen ar lan afon Alaw, ger pentref Llanddeusant, Ynys Môn. Chwiliwch am y garnedd o'r enw Bedd Branwen, sy'n dynodi'r man ble cafodd ei chladdu yn ôl pob tebyg.
- Ewch am dro i bentref bychan Aberffraw, ble cynhaliwyd priodas Branwen a Matholwch, a ble difethwyd y cyfan gan Efnisien wrth iddo glwyfo ceffylau Iwerddon.
- Chwiliwch am lecyn da i ddweud straeon – fel traeth bychan creigiog, coeden wag neu faen hir. Yna rhannwch eich hoff chwedlau, neu lluniwch straeon hudolus newydd.



Pentref Aberffraw

© Hawlfraint y Goron (2013)
Croeso Cymru

Ewch i www.cadw.cymru.gov.uk i ddarganfod mwy am y safleoedd